## ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Draft

Dyma chweched adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2009 hyd Mawrth 2010.

### Aelodaeth

Eleni, daeth cyfnod aelodaeth dau aelod annibynnol, Chris Bretherton-Watt a John Pollard, i ben diwedd Medi.

Hysbyswyd am ddau aelod annibynnol newydd yn y Daily Post ac ar wefan yr Awdurdod. Ar y 1af o Ragfyr, cynhaliwyd cyfweliadau yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ac o ganlyniad penodwyd Celia Blomeley a Jane A Eyton-Jones i ymuno â'r Pwyllgor Safonau.

Mae'r aelodaeth newydd fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Simon Fysh
Samindre Soysa
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones

<u>Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Cynghorydd Glyn Williams
Cynghorydd Merfyn Thomas

### Cyfarfodydd gynhaliwyd

Mae deddfwriaeth yn pennu fod rhaid i'r holl Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith pob blwyddyn galendr. Daeth y Pwyllgor Safonau at ei gilydd am gyfarfod ar 18fed Chwefror 2010. Yn ystod gweddill y flwyddyn, roedd busnes arall yn cael ei drafod drwy ohebiaeth, mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad hwn.

Roedd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod ar 18fed Chwefror 2010.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Samindre Soysa.

**Materion a Drafodwyd ar 18fed Chwefror 2010**

Trafodwyd y canlynol yn ystod y cyfarfod:

Ar ddechrau'r cyfarfod enwebwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd i'r Pwyllgor sef .........

Gan fod aelodau newydd wedi ymuno â'r pwyllgor, treuliwyd amser yn trafod rôl aelodau annibynnol a'r hyn ddisgwylir gan y pwyllgor. Derbyniodd yr aelodau newydd gopi o Llawlyfr Aelodau'r Awdurdod.

Trafodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a hysbyswyd aelodau fod yr Awdurdod wedi penderfynu peidio cynnig lwfans aelodau cyf-etholedig.

Roedd Aelodau'r pwyllgor yn falch o nodi fod yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn ei ymgais am Freinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.

Trafodwyd anghenion hyfforddiant aelodau'r Pwyllgor a chytunwyd ......

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad yma, ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr mewn perthynas â'r rôl fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn unol â hynny, ni gyfeiriwyd unrhyw faterion i'r pwyllgor i'w harchwilio neu wneud penderfyniad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Hysbyswyd y Pwyllgor fod pwyllgor archwilio'r Awdurdod nawr wedi'i sefydlu. Roedd yr Aelodau yn gwbwl gefnogol o'r cam hwn.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad yma.

Draft